

## Llythyr hawdd ei ddeall



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

### I staff sydd yn gweithio yn y gwasanaethau iechyd:

Cyfarwyddwyr Nyrsio GIG Cymru

Prif Weithredwyr GIG Cymru

### Oddi wrth:


Yr Athro Jean White CBE, **Prif Swyddog Nyrsio**

### Dyddiad:

20 Ebrill 2020



Ar 25 Mawrth fe wnes i ysgrifennu rhai rheolau ar gyfer mynd i weld pobl yn yr ysbyty.



Oherwydd Coronafeirws dydy hi ddim yn ddiogel i lawer o bobl ymweld ag ysbytai.



Rydw i'n falch bod pobl yn dilyn y rheolau. Rydw i wedi diweddarau'r rheolau nawr.



**Dim ond am resymau arbennig rydych chi'n cael mynd i weld rhywun.**



**Rydych chi'n gallu mynd i weld plentyn yn yr ysbyty.**

- Rhaid i chi fod yn rhiant i'r plentyn neu yn berson sydd yn edrych ar ôl y plentyn.
- Dim ond 1 person sydd yn gallu ymweld.



**Rydych chi'n gallu mynd i weld rhywun sydd yn marw yn yr ysbyty.**

- Rhaid i chi ofyn i'r prif nyrs i gytuno gyda hyn i ddechrau.
- Dim ond 1 person ar y tro sydd yn gallu ymweld.



**Rydych chi'n gallu mynd i weld menyw sydd yn cael babi yn yr ysbyty.**

- Rhaid i chi fod yn **partner geni** y fenyw. A rhaid i chi fod yn byw gyda'ch gilydd.



**Partner geni** ydy rhywun sydd yn aros gyda menyw pan mae ei babi yn cael ei eni.



**Rydych chi'n gallu mynd i weld rhywun sydd gyda phroblemau iechyd meddwl, dementia, anabledd dysgu neu Awtistiaeth yn yr ysbyty.**

- Rydych chi'n cael ymweld dim ond os ydy'r person yn mynd yn ypset os nad ydych chi'n dod i'w gweld nhw.



Pan rydych chi'n mynd i weld rhywun yn yr ysbyty fe fyddwch chi'n cael gwybod sut i gadw'n ddiogel rhag Coronafeirws:



- Rhaid i chi ymolchi eich dwylo
- Efallai bod rhaid i chi wisgo mwgwd a menyg
- Efallai bod rhaid i chi wisgo dillad arbennig.



Os ydych chi dros 70 oed, yn feichiog neu gyda salwch, dydy hi ddim yn ddiogel i chi ymweld efallai.



Siaradwch gyda nyrs yn yr ysbyty cyn i chi ymweld. Dywedwch wrthyn nhw os oes gennych chi salwch, os ydych chi dros 70 oed neu os ydych chi'n feichiog.



Fe fyddan nhw'n rhoi cyngor i chi os ydy hi'n ddiogel i chi ymweld.



Rhaid i bob ysbyty ddilyn y rheolau yma ar unwaith. Fe ddylai pob ysbyty ddweud wrth bobl am y rheolau yma.

Jean White

### **Oddi wrth**

Yr Athro Jean White CBE,  
Prif Swyddog Nyrsio.